**GWEINIDOGION Y DU YN GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**94 - Rheoliadau'r Rheolaethau Swyddogol ar gyfer Bwyd, Bwyd Anifeiliaid ac Iechyd a Lles Anifeiliaid (Diwygio ac ati.) (Ymadael â'r UE) 2019**

*Wedi'u gosod yn Senedd y DU: 4 Chwefror 2019*

| **Sifftio** | |
|---|---|
| Yn destun gwaith sifftio yn Senedd y DU? | Na |
| Y weithdrefn: | Cadarnhaol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Dd/B |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Nid yw'n hysbys |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Dd/B |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 19 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Nid yw'n ofynnol |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Dd/B |
| Y weithdrefn | Cadarnhaol |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Nid yw'n hysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Nid yw'n hysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Nid yw'n hysbys |

**Sylwadau**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8 (1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir yn ymwneud â rheolaethau swyddogol ar fwyd a bwyd anifeiliaid er mwyn sicrhau y gellir ei gweithredu ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Bwriedir i'r Rheoliadau ddiogelu iechyd y cyhoedd, iechyd a lles anifeiliaid wrth ddarparu parhad i weithredwyr busnes a masnach. Mae deddfwriaeth y rheolaethau swyddogol yn pennu rheolau a safonau gweithredol ar gyfer dilysu cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid gan awdurdodau cymwys yn y Deyrnas Unedig, megis yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA). Mae'r offeryn hwn yn diwygio cyfeiriadau at

sefydliadau a systemau'r UE fel y gellir gweithredu'r ddeddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig ar ôl ymadael â'r UE.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 5 Chwefror 2019 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Mae’r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i’r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.
Nid yw Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion sylweddol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol wedi nodi unrhyw reswm cyfreithiol i geisio cynnig cydsyniad o dan Reol Sefydlog 30A.10 mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.